**RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014**

**CYFRIFON CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026**

Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd i lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2026.

Dangosir yr amserlen statudol 2025/26 yn y tabl isod:-

| | **Amserlen Statudol** |
|---|---|
| Datganiad o Gyfrifon Drafft | 31 Mai 2026 |
| Datganiad o Gyfrifon yn dilyn Archwiliad | 31 Gorffennaf 2026 |

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026. Mae hynny oherwydd yr angen i ddatrys materion technegol yn ymwneud â safonau cyfrifeg yn ogystal â'r her flynyddol o gwblhau'r cyfrifon a'r nodiadau cefnogol angenrheidiol o fewn yr amserlen statudol.